GRT 06
Ymgynghoriad ar ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
Consultation on the provision of sites for Gypsy, Roma and Travellers
Ymateb gan: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Response from: Snowdonia National Park Authority

**Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr Ymchwiliad i ddarpariaeth safleoedd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr**.

**Cefndir o safbwynt Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hasesu'n briodol a bod yr angen a nodwyd am leiniau'n cael ei ddiwallu. Nid yw Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn awdurdod lleol ond fel Awdurdod cynllunio lleol mae ganddo rôl i'w chwarae i sicrhau bod unrhyw angen a nodir mewn Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (AALlST) yn cael ei ddiwallu yng Nghynllun Datblygu Lleol yr Awdurdod.

Mae Awdurdodau Lleol Gwynedd a Chonwy yn gyfrifol am gynnal Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer ardal awdurdod cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri. Mae canfyddiadau Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Chonwy yn ystyriaeth allweddol yn y broses gwneud cynllun, monitro ac adolygu ar gyfer cynllun datblygu'r awdurdod ac yn ffurfio rhan bwysig o sylfaen dystiolaeth y cynllun datblygu.

**Asesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr 2013, 2016 a 2022**

Dros y blynyddoedd, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi bod yn eistedd ar grwpiau llywio Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i nodi unrhyw anghenion o fewn y Parc Cenedlaethol. Nododd adroddiad Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr rhanbarthol Gogledd Orllewin Cymru a gyhoeddwyd yn 2013 yr angen am leiniau parhaol ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Canfu astudiaeth 2013 fod angen 3 llain breswyl i ymdopi â'r galw o Gonwy a datblygwyd safle addas o 4 llain yn Ffordd Bangor yng Nghonwy, ger ffin y Parc Cenedlaethol. Nid oedd tystiolaeth o angen yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr i ddynodi safle o fewn ardal y Parc Cenedlaethol. Paratôdd Gwynedd a Chonwy Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ar lefel awdurdod lleol yn 2016. Ni nododd y Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr fod angen safle o fewn y Parc Cenedlaethol ac roedd CDLl Eryri yn cynnwys polisi yn seiliedig ar feini prawf i farnu cynigion i ddiwallu angen yn y dyfodol neu angen annisgwyl.

Ym mis Mai 2021, comisiynwyd arc4 i gynorthwyo Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn i baratoi Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr i lywio strategaethau tai lleol a pholisïau darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr mewn Cynlluniau Datblygu. Mae'r Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i gynnal yn unol â'r fethodoleg a nodir yn Asesiad Llywodraeth Cymru o Ymgymryd â Llety Sipsiwn a Theithwyr. Eto nid oedd yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi adnabod yr angen am safle o fewn y Parc Cenedlaethol.

Wrth asesu'r angen am safle, mae'r Awdurdod hefyd yn ystyried ffynonellau gwybodaeth hanesyddol eraill sy'n ymwneud ag ardal y Parc Cenedlaethol gan gynnwys nifer y ceisiadau cynllunio a'u canlyniadau a nifer yr apeliadau o fewn y Parc Cenedlaethol. Roedd Cynllun Lleol Eryri a fabwysiadwyd ym 1999 yn cynnwys polisi ar Safleoedd Sipsiwn, ond ni fu un cais cynllunio nac apêl cynllunio ar gyfer Safle Sipsiwn yn ystod cyfnod Cynllun Lleol Eryri ac o ganlyniad ni ddefnyddiwyd y polisi. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Eryri yn 2011 a'i adolygu yn 2019 ond eto ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr nac unrhyw achosion gorfodi cynllunio yn ymwneud â Safle Sipsiwn a Theithwyr.

O ran y cwestiynau manwl sy'n ymwneud â'r ymchwiliad, nid oes gan APCE y profiad na'r arbenigedd i wneud sylwadau ar y cwestiynau unigol ond mae ganddynt y sylwadau a ganlyn i'w gwneud.

Byddai awdurdodau lleol Gwynedd a Chonwy mewn gwell sefyllfa i wneud sylwadau ar ba mor llwyddiannus y maent wedi bod wrth weithio gyda'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y broses Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. O'n dealltwriaeth ni, mabwysiadodd gweithwyr maes Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gwynedd a Môn strategaeth ymchwil i ymgysylltu'n uniongyrchol â chymaint o aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn ardal yr astudiaeth trwy:

- Gydgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a sefydliadau cymorth;
- Gyfrifiad o safleoedd yn adolygu cyfanswm nifer y lleiniau, nifer y lleiniau a feddiannwyd a gwag, nifer y carafanau a chyfanswm nifer y cartrefi; a
- Chyfweliadau gyda Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd awdurdodedig, safleoedd diawdurdod a byw mewn llety brics a morter, gan ddefnyddio'r holiadur a argymhellir yng Nghanllawiau'r Llywodraeth.

## Paratoi Cynllun Datblygu Lleol

O ran y Cynllun Datblygu Lleol, mae'r Asesiadau Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn sylfaen dystiolaeth allweddol i awdurdodau cynllunio lleol asesu lefel y ddarpariaeth llety ychwanegol i Sipsiwn a Theithwyr sy'n ofynnol wrth baratoi eu cynlluniau datblygu.

Mae Cynllun Cynnwys y Gymuned y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi sut y gall unigolion, cymunedau a sefydliadau gymryd rhan ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n bwysig bod awdurdodau cynllunio lleol yn ymwybodol pa sefydliadau sy'n cynrychioli cymunedau Sipsiwn a Theithwyr orau ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn codi ymwybyddiaeth cymunedau o broses y cynllun datblygu. Pe bai tystiolaeth o angen wedi'i nodi yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, mae'n bwysig bod cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn cymryd rhan ym mhroses y cynllun datblygu lleol ac yn cyflwyno safleoedd posibl i'w hystyried fel rhan o'r broses o baratoi'r cynllun.

Mae'n her fawr yn dal i fod i ddod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu'n ystyrlon â grwpiau anodd eu cyrraedd ar faterion sydd o bwys mawr iddynt fel mater o drefn ar adeg pan fo mwy o ddylanwad ar y canlyniadau posibl yn y cynllun datblygu. Mae'n her a fydd yn gofyn am adnoddau ychwanegol nad ydynt ar gael ar hyn o bryd ar lefel genedlaethol neu leol.

## Gweithredu a Monitro

Nid ydym mewn sefyllfa i wneud sylwadau ar weithredu a monitro Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr `ledled Cymru. Mae Gwynedd a Chonwy, sef yr awdurdodau lleol ar gyfer ardal Parc Cenedlaethol Eryri, wedi cynnal Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn ddiweddar. Deallwn y dylid cynnal Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr o leiaf bob 5 mlynedd a bod hyblygrwydd i gynnal Asesiadau Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn amlach os canfyddir newid sylweddol yn lefel yr angen yn yr ardal. Nid ydym yn ymwybodol o broses ffurfiol i fonitro ac adolygu Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Eto, byddai awdurdodau lleol Gwynedd a Chonwy mewn gwell sefyllfa i wneud sylwadau ar yr agwedd hon.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn adrodd yn flynyddol ar unrhyw gynnydd a wneir gan Wynedd a Chonwy ar eu Hasesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn adroddiad monitro blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol. Pe bai newid sylweddol yn lefel yr angen yn ardal y Parc Cenedlaethol yn cael ei nodi trwy Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gallai hyn arwain at adolygu cynllun datblygu'r awdurdod er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y

ddarpariaeth safleoedd trwy'r broses gynllunio. Byddai Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl hefyd yn adrodd ar unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr o fewn ardal y Parc Cenedlaethol.

**Cynlluniau Datblygu Strategol ac Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Rhanbarthol**

Mae yna fudd o weithio ar y cyd er mwyn paratoi Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr wrth i boblogaethau Sipsiwn a Theithwyr symud ar draws ffiniau gweinyddol yn rheolaidd. Gallai Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr rhanbarthol helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o batrymau teithio ac anghenion llety ar draws awdurdodau lleol. Gallai hyn arwain at ddull cyffredin a chysondeb ar draws yr ardal o ran nodi angen a dyrannu safleoedd addas ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr mewn cynlluniau datblygu. Gall gweithio ar draws rhanbarth hefyd arwain at arbedion cost a gwella'r data sydd ar gael i asesu angen. Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn cael ei sefydlu ar hyn o bryd i yrru'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Strategol (CDS) yn ei flaen ar draws gogledd Cymru. Mae'r Cynlluniau Datblygu Strategol yn gyfrwng ar gyfer gweithio trawsffiniol ar ddarpariaeth Sipsiwn a Theithwyr. Gallai asesiad a gynhelir ar sail ranbarthol ddod â manteision o ran cysondeb yn y dull gweithredu ar draws awdurdodau lleol i nodi anghenion a safleoedd ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr.